CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

# RHESTR YSGOLION

**Rhoddir isod fanylion am yr ysgolion ym Mwrdeistref Sirol Conwy.**

**Mae pob ysgol yn ysgol ddyddiol gydaddysgol, er bod darpariaeth breswyl i rai disgyblion yn Ysgol y Gogarth.**

Rhoddir manylion am yr ysgolion ynghyd â dosbarthiad yr ysgol gan ddefnyddio byfoddau a ganlyn:

| **Categori** | |
|---|---|
| **CC** | Ysgol Gynradd Cymunedol |
| **CWR** | Ysgol Gynradd Wirfoddol dan Reolaeth |
| **CWN** | Ysgol Gynradd Wirfoddol dan Gymorth |
| **CS** | Ysgol Gynradd Sylfaenol |
| **(I)** | Ysgol Plant Iau |
| **(B)** | Ysgol Plant Babanod |
| **(E)** | Ysgol yr Eglwys yng Nghymru |
| **(C)** | Ysgol Babyddol |
| **(GP)** | Ysgol Gymraeg Penodedig |
| **UC** | Ysgol Uwchradd Cymunedol |
| **US** | Ysgol Uwchradd Sylfaenol |

| **Categori** | **Llywodraeth Cymru – Ysgolion wedi'u diffinio yn unol â'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, categorïau Cynradd:** |
|---|---|
| **1** | Cyfrwng Cymraeg |
| **2** | Cyfrwng dwy ffrwd |
| **3** | Trosiannol: cyfrwng Cymraeg gyda defnydd sylweddol o'r Saesneg |
| **4** | Saesneg yn bennaf gyda defnydd sylweddol o'r Gymraeg |
| **5** | Cyfrwng Saesneg yn bennaf |

| Llywodraeth Cymru - Ysgolion wedi'u diffinio yn unol â'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, categorïau UWCHRADD | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Categori** | **Cwricwlwm** | **Iaith yr Ysgol** | **Deilliannau** | **Ysgolion** |
| **Ysgol Uwchradd Cyfrwng Cymraeg: Categori 1** | Addysgir pob pwnc (gan gynnwys Addysg Grefyddol ac ABCh) heblaw am Saesneg drwy gyfrwng y Gymraeg i bob disgybl, er bod rhai ysgolion, o bosibl, yn cyflwyno terminoleg Saesneg mewn un neu ddau o bynciau. | Cymraeg yw iaith yr ysgol o ddydd i ddydd. Denfyddir Cymraeg fel iaith i gyfathrebu gyda disgyblion ac ar gyfer gweinyddu'r ysgol.Mae'r ysgol yn cyfathrebu â rhieni yn y ddwy iaith. | Fel rheol, disgwylir y bydd pob disgybl yn cael ei asesu ym mhob pwnc heblaw am Saesneg drwy gyfrwng y Gymraeg yn CA3 a CA4 ac y bydd y disgyblion yn gallu symud ymlaen yn hawdd i ddarpariaeth ôl 16 cyfrwng Cymraeg.<br>Bydd pob disgybl yn cael eu hasesiadau trwy gyfrwng y Gymraeg Iaith 1af, ag eithrio asesiad Saesneg. | Ysgol Y Creuddyn |
| **Ysgol Uwchradd Ddwyieithog: Categori 2** | Mae'r categori hwn wedi ei rannu'n 4 is adran, yn ôl canran y pynciau a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg a chan ddibynnu a yw'n cynnig yr un ddarpariaeth yn Saesneg. Nid yw'r categorïau a'r diffiniadau yn adlewyrchu nifer gyfran y disgyblion sy'n manteisio ar y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn ysgol. Bydd disgwyl i'r cyrff llywodraethu roi gwybodaeth ym mhrosbectws yr ysgol ynghylch i ba raddau y ceir dewis y ddarpariaeth ac a yw cael manteisio ar y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn amodol ar gymhwysedd y disgybl yn y Gymraeg. Dylid nodi hefyd yn y prosbectws faint o ddisgyblion sy'n manteisio ar y dewisiadau sydd ar gael.<br>**Categori 2A** - Addysgir o leiaf 80% o'r pynciau ac eithrio'r Gymraeg a'r Saesneg drwy gyfrwng y Gymaeg yn unig i bob disgybl. Mae un neu ddau o bynciau yn cael eu haddysgu i rai o'r disgyblion yn Saesneg neu yn y naill iaith a'r llall.<br>**Categori 2B** – Addysgir o leiaf 80% o'r pynciau (ac eithrio'r Gymraeg a'r Saesneg) drwy gyfrwng y Gymraeg ond fe'u haddysgir drwy gyfrwng y Saesneg hefyd.<br>**Categori 2C** – Addysgir 50 – 79% o bynciau (ac eithrio'r Gymraeg a Saesneg) drwy gyfrwng y Gymraeg ond fe'u haddysgir drwy gyfrwng y Saesneg hefyd.<br>**Categori 2CH** – Addysgir pob pwnc (ac eithrio'r Gymraeg a'r Saesneg) i bob disgybl gan ddefnyddio'r naill iaith a'r llall. | Y cyd-destun ieithyddol fydd yn pennu iaith neu ieithoedd yr ysgol o ddydd i ddydd. Defnyddir y naill a'r llall i gyfathrebu â'r disgyblion a hefyd yng ngweinyddiaeth yr ysgol. Rhoddir blaenoriaeth uchel i greu ethos Cymraeg. Mae'r ysgol yn cyfathrebu â'r rhieni yn y ddwy iaith. | Ar gyfer disgyblion yng nghategorïau 2A, 2B a 2C sy'n dilyn y nifer uchaf posib o gyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg, disgwylir, fel rheol, y byddent yn cael eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg yn y pynciau hynny yn CA3 a CA4 ac y byddent yn gallu symud ymlaen yn hawdd i ddarpariaeth ôl 16 drwy gyfrwng y Gymraeg yn y pynciau y maent wedi eu dewis. Ar gyfer disgyblion yng nghategori 2Ch, disgwylir, fel rheol, y byddent yn cael eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg ym mhob pwnc heblaw am Saesneg yn CA3 a CA4 ac y byddent, fel rheol, yn gallu symud ymlaen yn hawdd i ddarpariaeth ôl 16 drwy gyfrwng y Gymraeg yn y pynciau y maent wedi eu dewis.<br>Bydd pob disgybl yn y ffrwd Cyfrwng Cymraeg yn cael eu hasesiadau trwy gyfrwng y Gymraeg Iaith 1af, ag eithrio asesiad Saesneg.<br>Bydd pob disgybl yn y ffrwd Cyfrwng Saesneg yn cael eu hasesiadau trwy gyfrwng y Saesneg ond bydd asesiad y Gymraeg yn asesiad Cymraeg Ail Iaith. | Ysgol Dyffryn Conwy |
| **Ysgol Uwchradd cyfrwng Saesneg yn bennaf ond a defnydd sylweddol o'r Gymraeg: Categori 3** | Addysgir y naill iaith a'r llall, ac addysgir 20 – 49% o'r pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg. Fel rheol, byddai pob pwnc yn cael ei addysgu drwy gyfrwng y Saesneg hefyd. | Y cyd-destun ieithyddol fydd yn pennu iaith neu ieithoedd yr ysgol o ddydd i ddydd. Defnyddir y naill iaith a'r llall i gyfathrebu â'r disgyblion a hefyd yng ngweinyddiaeth yr ysgol. Rhoddir blaenoriaeth uchel i greu ethos Cymraeg. Mae'r ysgol yn cyfathrebu â'r rhieni naill ai yn y ddwy iaith, neu yn Saesneg. | Fel rheol, disgwylir y gallai'r disgyblion hynny sy'n dewis y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg gael eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg yn y pynciau hynny ar bob lefel ac y byddant, o bosibl, yn gallu symud ymlaen i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn y pynciau hynny ar ôl 16.<br>Bydd pob disgybl yn y ffrwd Cyfrwng Saesneg yn cael eu hasesiadau trwy gyfrwng y Saesneg ond bydd asesiad y Gymraeg yn asesiad Cymraeg Ail Iaith. | |
| **Ysgol Uwchradd cyfrwng Saesneg yn bennaf: Categori 4** | Addysgir y disgyblion yn bennaf drwy gyfrwng y Saesneg. Addysgir y Gymraeg fel ail iaith hyd at diwedd CA4. Mae'n bosibl y gellir dewis dysgu un neu ddau bwnc (a allai gynnwys y Gymraeg fel iaith gyntaf) drwy gyfrwng y Gymraeg neu drwy ddefnyddio'r ddwy iaith | Saesneg yw iaith yr ysgol o ddydd i ddydd, ond defnyddir rhywfaint o Gymraeg hefyd i gyfathrebu â'r disgyblion gan anelu at wella eu gallu i ddefnyddio'r Gymraeg o ddydd i ddydd. Mae'r ysgol yn cyfathrebu â'r rhieni naill ai yn Saesneg neu yn y ddwy iaith. | Fel rheol, disgwylir y gallai unrhyw ddisgyblion sy'n dewis astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg gael eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg yn y pynciau hynny ar bob lefel ac mae'n bosibl y byddent yn gallu symud ymlaen i astudio'r pynciau hynny drwy gyfrwng y Gymraeg yn y pynciau hynny ar bob lefel ac mae'n bosibl y byddent yn gallu symud ymlaen i astudio'r pynciau hynny drwy gyfrwng y Gymraeg ar ôl 16. Byddai'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn cael eu hasesu drwy gyfwng y Saesneg yn y rhan fwyaf o bynciau a byddent yn symud ymlaen i astudio drwy gyfrwng y Saesneg ar ôl 16.<br>Bydd pob disgybl yn cael eu hasesu mewn Saesneg ond bydd eu hasesiad Cymraeg mewn Cymraeg Ail Iaith. | Ysgol Aberconwy<br>Ysgol Bryn Elian<br>Ysgol Eirias<br>Ysgol Emrys ap Iwan<br>Ysgol John Bright |

# Ysgolion Uwchradd / Secondary Schools

| Ysgol<br>School | Pennaeth<br>Headteacher | Statws<br>Status | Oedran<br>Age Range | Rhif Mynediad Admission No | | Rhif Capasiti Capacity No | Derbyniadau 2020-2021 Intake<br><br>(Blwyddyn 7 yn unig / Year 7 only) | Nifer yr Apeliadau yn 2020-2021 No of Appeals<br><br>(nifer ganiatawyd / no or places granted) | Cyfanswm Nifer Disgyblion Total No of Pupils |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Bl/Yr 7-11 | Bl/Yr 12 | | | | |
| **Ysgol Aberconwy**<br>Morfa Drive, Conwy LL32 8ED<br>☎ 01492 593243<br>pennaeth@aberconwy.conwy.sch.uk<br>www.aberconwy.conwy.sch.uk | Mr Ian Gerrard | UC | 11-18 | 204 | 112 | 1244 | 193 | 0 | 911 |
| **Ysgol Bryn Elian**<br>Windsor Drive, Hen Golwyn LL29 8HU<br>☎ 01492 518215<br>dh@brynelian.conwy.sch.uk<br>www.brynelian.conwy.sch.uk | Mr Dave Humphries | US | 11-18 | 170 | 91 | 1037 | 164 | 12(4) | 957 |
| **Ysgol Dyffryn Conwy**<br>Ffordd Nebo, Llanrwst LL26 OSD<br>☎ 01492 642800<br>pennaeth@dyffrynconwy.conwy.sch.uk<br>www.ysgoldyffrynconwy.org | Mr Owain Gethin Davies | UC | 11-18 | 128 | 87 | 813 | 94 | 0 | 608 |
| **Ysgol Eirias**<br>Eirias Road, Bae Colwyn LL29 7SP<br>☎ 01492 532025<br>general@eirias.conwy.sch.uk<br>www.eirias.co.uk | Mrs Sarah Sutton | US | 11-18 | 239 | 152 | 1497 | 214 | 0 | 1335 |
| **Ysgol Emrys ap Iwan**<br>Faenol Avenue, Abergele LL22 7HE<br>☎ 01745 832287<br>info@emrysapiwan.conwy.sch.uk<br>www.emrysapiwan.conwy.sch.uk | Mrs Sue Williams | US | 11-18 | 202 | 93 | 1196 | 157 | 0 | 971 |

| Ysgol<br>School | Pennaeth<br>Headteacher | Statws<br>Status | Oedran<br>Age Range | Rhif Mynediad<br>Admission No | | Rhif Capasiti<br>Capacity No | Derbyniadau 2020-2021 Intake<br><br>(Blwyddyn 7 yn unig / Year 7 only) | Nifer yr Apeliadau yn 2020-2021<br>No of Appeals<br><br>(nifer ganiatawyd / no or places granted) | Cyfanswm Nifer Disgyblion<br>Total No of Pupils |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Bl/Yr 7-11 | Bl/Yr 12 | | | | |
| | | | | | | | | | |
| **Ysgol John Bright**<br>Maesdu Road, Llandudno LL30 1LF<br>☎ 01492 864200<br>general@johnbright.conwy.sch.uk<br>www.johnbright.conwy.sch.uk | Mrs Ann Webb | UC | 11-18 | 259 | 87 | 1469 | 157 | 0 | 1208 |
| | | | | | | | | | |
| **Ysgol y Creuddyn**<br>Ffordd Dderwen, Bae Penrhyn, Llandudno LL30 3LB<br>☎ 01492 544344<br>pennaeth@creuddyn.conwy.sch.uk<br>www.creuddyn.co.uk | Mr Trefor Jones | UC (GP) | 11-18 | 118 | 62 | 716 | 119 | 0 | 625 |
| | | | | | | | | | |

* **Amcanion yw'r ffigyrau hyn wedi'i seilio ar wybodaeth a gasglwyd (Gorffennaf 2021) (Ffynhonnell: Ystadegau Ebrill 2021) ac maent yn cynnwys niferoedd Ôl-16.**
***These figures are approximate and based on information available at the time of collation (July 2021) (Source: April 2021 statistics) and include Post-16 figures.***